

Ddim yn ymateb ond yn anadlu



Cardiau chwarae rôl:
Ddim yn ymateb ond yn anadlu

Beth sy'n digwydd?

Mae dau ffrind mewn gŵyl gerddoriaeth haf. Maent wedi bod ar eu traed drwy'r dydd ac wedi blino. Maent yn cerdded i ffwrdd o'r arena, gan chwilio am rywle ychydig yn dawelach. Maent yn gweld rhywun yn gorwedd yn llonydd ar y glaswellt.

Cardiau chwarae rôl:
Ddim yn ymateb ond yn anadlu

Syniadau

- Cliriwch rywfaint o le i'r ffrindiau ddod o hyd i'r un sy'n gorwedd ar y llawr.
- Gallech roi rhywfaint o gerddoriaeth yn y cefndir.
- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.
- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i'r un nad yw'n ymateb ond sy'n anadlu? Pa arwyddion o anadlu ond ddim yn ymateb a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

Rolau

Sesiwn ôl-drafod

Cardiau chwarae rôl:
Ddim yn ymateb ond yn anadlu

Rhywun nad yw'n ymateb

Nid yw'r unigolyn hwn yn ymateb ond mae'n dal i anadlu. Mae'n gorwedd ar y llawr ar ei gefn.

Mae'n amlwg ei fod yn anadlu. Gall pobl weld y frest yn symud. Ond os bydd rhywun yn ceisio ei ddeffro, nid yw'n ymateb.

Cardiau chwarae rôl:
Ddim yn ymateb ond yn anadlu

Helpwr

Mae'r unigolyn hwn wedi bod mewn gŵyl gerddoriaeth am y diwrnod gyda'i ffrindiau. Mae wedi blino ac yn ceisio dod o hyd i rywle tawel i ymlacio. Wrth iddo fynd o gwmpas y gornel, mae'n dod o hyd i rywun yn gorwedd ar y llawr. Mae'n ymddangos ei fod wedi cwmpo. Yn bendant, nid yw'n ymddangos ei fod yn gorffwyso.

Mae'n gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel, ac yn galw ar ei ffrind i ddod ato. Maent yn galw ar yr unigolyn ond nid yw'n ymateb. Maent yn gwybod bod gan wyliau swyddogion cymorth cyntaf o gwmpas fel arfer, ond nid ydynt eisiau gadael yr unigolyn.

Mae'n ymddangos ei fod tua'r un oedran â nhw. Maent yn cyffwrdd ei ysgwyddau ac yn edrych i weld a yw'n anadlu drwy wyro ei ben yn ôl a cheisio gweld a yw'n anadlu. Maent yn clywed ei fod yn anadlu ac felly maent yn ei rollo ar ei ochr ac yn gwyro ei ben yn ôl er mwyn iddo allu anadlu. Maent yn ffonio 999.

Cardiau chwarae rôl:
Ddim yn ymateb ond yn anadlu

Gwyliwr

Mae'r unigolyn hwn mewn gŵyl gyda'i ffrind. Mae wrth ei fodd yno. Mae ei ffrind yn chwilio am le i eistedd a gorffwys ac mae'n ei alw ato. Pan rydych chi'n cyrraedd yno, rydych chi'n gweld rhywun o'r un oedran â chi wedi llewygu ar y llawr.